

Prosiect Maen Hir

Cwestiynau Cyffredin

Contents

1. Beth yw Prosiect Maen Hir?
2. Pwy yw'r datblygwr y tu ôl i'r cynigion?
3. Sut bydd Prosiect Maen Hir yn cefnogi ymdrechion hinsawdd?
4. Pam mae enw'r prosiect wedi newid o Fferm Solar Môn i Brosiect Maen Hir?
5. Beth yw'r broses gynllunio ar gyfer y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO)?
6. Sut bydd Maen Hir yn gweithio gyda'r gymuned leol?
7. Sut bydd y gymuned leol yn cyfranogi?
8. Beth yw ein hamserlen?
9. Sut mae cael y wybodaeth ddiweddaraf?

1. Beth yw Prosiect Maen Hir?

Mae Prosiect Maen Hir yn gynllun solar a storio ynni arfaethedig a gyflwynwyd gan Lightsource bp ar Ynys Môn. Bydd y prosiect yn cyflenwi dros 350 megawat (MW) o drydan adnewyddadwy i'r Grid Cenedlaethol.

Mae Prosiect Maen Hir wedi'i leoli yng ngogledd yr Ynys, ac mae'n cynnwys tua 1,234 hectar (ha) o dir sydd â'r potensial i ddarparu ar gyfer datblygiad solar ffotovoltaig a seilwaith cysylltiedig gan gynnwys is-orsaf y prosiect a'r System Storio Ynni Batri (BESS). Diffinnir y safle fel un sy'n cynnwys tri pharsel cysylltiedig er mwyn gallu cyfeirio atynt yn rhwydd. Dyma'r parseli: ardal ger Rhosgoch a Bodewryd (a nodir fel 'Gogledd Maen Hir'), i'r de-ddwyrain o Lannerch-y-medd ('De Maen Hir'), ac o amgylch ymylon gogleddol a dwyreiniol Llyn Alaw ('Canol Maen Hir'). Mae'r tir yn cynnwys caeau amaethyddol yn bennaf, ynghyd ag ardal o dir llwyd yng Ngogledd Maen Hir ger Rhosgoch a arferai fod yn ddepo olew Shell.

Mae'r cynigion yn cynnwys seilwaith ar gyfer cynhyrchu a storio ynni adnewyddadwy, cyflenwi'r ynni hwn i'r Grid Cenedlaethol, ac ar gyfer mynedfeydd a'r compowndiau dros dro sydd eu hangen ar gyfer adeiladu. Yn bwysig, mae'r cynigion hefyd yn cael eu datblygu gyda'r potensial i alluogi rhagor o gyfleoedd fel cynllun solar cymunedol 5MW, cynigion seilwaith gwyrdd, a chyfleoedd hamdden newydd. Uchelgais ehangach Lightsource bp yw i'r prosiect alluogi Hyb Ynni ar hen safle Shell a fyddai yn cefnogi datblygu economaidd a chreu swyddi.

2. Pwy yw'r datblygwr y tu ôl i'r cynigion?

Mae Lightsource bp yn arweinydd byd-eang o ran datblygu, ariannu, rheoli a gweithredu prosiectau solar a storio ynni ar raddfa cyfleustodau. Ein pwrpas yw darparu ynni solar fforddiadwy a chynaliadwy i gymunedau ledled y byd. Mae gennym hanes lwyddiannus o adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw safleoedd solar.

Mae Lightsource bp wedi ymrwymo i weithio gyda'r cymunedau rydyn ni'n buddsoddi ac yn datblygu ynddynt, ac mae hynny'n wir yng nghymuned unigryw Ynys Môn ac yn enwedig yng nghymunedau gogledd Ynys Môn.

I gael rhagor o wybodaeth am y datblygwr, ewch i www.lightsourcebp.com, neu dilynwch ni ar Twitter [@lightsourcebp](https://twitter.com/lightsourcebp) neu ewch i'n [tudalen LinkedIn](#).

Prosiect Maen Hir

Solar a Storio Ynni

3. Sut bydd Prosiect Maen Hir yn cefnogi ymdrechion hinsawdd?

Mae gan y prosiect botensial i fod yn rhan allweddol o Raglen Ynys Ynni Cyngor Sir Ynys Môn, sy'n ceisio gosod yr Ynys ar flaen y gad o ran ymchwil a datblygu, cynhyrchu a gwasanaethu ynni carbon isel, gyda'r bwriad o greu manteision economaidd, cymunedol ac amgylcheddol.

Bydd Prosiect Maen Hir yn cyfrannu at dargedau Llywodraeth Cymru i gyrraedd Sero Net erbyn 2050 a defnyddio 70% o drydan o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2030. Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd wedi rhybuddio nad yw Cymru ar y trywydd iawn i gyrraedd Sero Net erbyn 2050 ar hyn o bryd, ond gallai prosiectau fel Maen Hir helpu i gyflawni hyn.

Mae'r DU hefyd wedi gosod targedau cenedlaethol i gyflawni allyriadau carbon sero net erbyn 2050, a mae datblygiadau solar ar raddfa fawr yn hanfodol i gyflawni hyn. Mae [Strategaeth Diogelwch Ynni Prydain](#), a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2022, yn anelu'n benodol at gynyddu capasiti solar y DU bum gwaith erbyn 2035, sy'n cyfateb i gyfanswm capasiti cynhyrchu o tua 70GW. Byddai Prosiect Maen Hir yn cyfrannu at gyrraedd y targed hwn drwy gynhyrchu dros 350MW o drydan adnewyddadwy.

4. Pam mae enw'r prosiect wedi newid o Fferm Solar Môn i Brosiect Maen Hir?

Rydym eisoes wedi rhannu ein huchelgais i gynhyrchu ynni adnewyddadwy o ynni solar yn y lleoliad hwn, ar ôl cyflwyno cynigion ar gyfer *Solar Môn* ar safleoedd tebyg yn 2021. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu'n gynnar ar-lein â rhanddeiliaid lleol a gweminarau cymunedol a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2021 o dan gyfyngiadau COVID-19.

Mae ein cynigion wedi esblygu ers hynny. Rydym wedi ystyried sylwadau o'r ymgysylltu cychwynnol, gan dynnu peth o'r tir a oedd wedi cael ei gynnig yn flaenorol, ynghyd â nodi ardaloedd ychwanegol a allai fod yn addas ar gyfer solar drwy ymgysylltu â thirfeddianwyr ac arolygon amgylcheddol cychwynnol. Rydym hefyd wedi ystyried rhagor o welliannau, fel mesurau lliniaru a gwella ychwanegol, a datblygu cynllun solar cymunedol 5MW, y System Storio Ynni Batri (BESS), a buddsoddiad mewn seilwaith i helpu i alluogi Hyb Ynni i ddarparu cyflogaeth leol.

Gan gyfrif am y datblygiadau hyn, mae gan y prosiect gapasiti cynhyrchu disgwylidig o fwy na 350 megawat (MW), sy'n golygu ei fod yn cael ei ddsbarthu fel Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (y DU) (NSIP). Mae hyn yn golygu, er mwyn cael caniatâd cynllunio, ei bod yn ofynnol i ni gyflwyno cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) ar gyfer y datblygiad arfaethedig i Arolygiaeth Gynllunio'r DU (PINS). Mae PINS yn gweithredu ar ran Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net (DESNZ). Bydd yn archwilio ein cynigion ac yna'n gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch a ddylid rhoi caniatâd ar gyfer y datblygiad. Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedau lleol yn rhan bwysig o'r broses hon.

Felly, fe wnaethom ddiweddar enw'r cynnig o *Solar Môn* i Brosiect Maen Hir er mwyn rhoi arwydd clir o'r newidiadau hyn.

Fe wnaethon ni ddewis yr enw yn seiliedig ar feini hirion Ynys Môn sy'n rhan o nodweddion mwyaf nodweddiadol ac unigryw'r ynys. Byddai Prosiect Maen Hir yn arwydd o gydnabod cyflawniadau Ynys Môn yn y gorffennol ac ymrwymiad i lunio ei dyfodol yn unol ag arferion cynaliadwy. Mae'n tanlinellu'r angen dybryd i ymateb ar frys i gyflawni allyriadau Sero Net wrth weithio mewn cytgordd â'r amgylchedd lleol sydd eisoes yn bodoli – cam hollbwysig tuag at gynaliadwyedd a chyfrifoldeb amgylcheddol.

5. Beth yw'r broses gynllunio ar gyfer y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO)?

Mae Prosiect Maen Hir yn cael ei ddsbarthu fel Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP) oherwydd y bwriedir iddo fod â chapasiti cynhyrchu o fwy na 350 MW.

Yng Nghymru, os oes gan brosiect gapasiti cynhyrchu o hyd at 10MW, mae'n mynd i'r awdurdod cynllunio lleol. Rhwng 10MW a 350MW, byddai cynllun yn mynd i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo. Pan fydd gan gynllun gapasiti cynhyrchu o fwy na 350MW, fel yn achos Prosiect Maen Hir, mae'r cais cynllunio yn mynd i Lywodraeth y DU.

Mae hyn yn golygu, er mwyn adeiladu Maen Hir, y byddwn yn gwneud cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO), sydd i bob pwrpas yn ganiatâd cynllunio ar gyfer NSIP. Cyflwynir ceisiadau am Orchymyn Cydsyniad Datblygu i'r Arolygiaeth Gynllunio (PINS) a'u cyflwyno i Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net (DESNZ). Bydd y cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu yn destun archwiliad gan awdurdod archwilio a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol i roi argymhelliad iddynt ynghylch a ddylid rhoi cydsyniad datblygu ai peidio. Bydd yr awdurdod archwilio yn cynnwys rhwng un a phum aelod. Bydd PINS yn gweinyddu'r archwiliad ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol. Yr Ysgrifennydd Gwladol a fydd yn penderfynu'n derfynol a ddylid rhoi ynteu wrthod cydsyniad datblygu. Mae rhagor o wybodaeth am y broses DCO ar gael yn <https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/application-process/>

Un o brif rannau proses cyn ymgeisio DCO yw ymgysylltu â chymunedau lleol a rhanddeiliaid. Byddwn yn cynnal cam ymgynghori anffurfiol yn y flwyddyn newydd, ac rydym wedi trefnu i'n hymgynghoriad statudol ddechrau yng ngwanwyn 2024. Bydd hyn yn cynnwys dogfennau a gwybodaeth ychwanegol am y cynigion, yn ogystal â chyfleoedd wyneb yn wyneb a digidol i ni gwrdd â'r gymuned leol a thrafod Prosiect Maen Hir.

6. Sut bydd Maen Hir yn gweithio gyda'r gymuned leol?

Yn ogystal â chefnogi targedau lleol a chenedlaethol i leihau allyriadau carbon a chynhyrchu ynni adnewyddadwy glân, cost isel, credwn y dylai'r cymunedau hynny sydd agosaf at y datblygiad arfaethedig elwa ohono.

Mae tîm y prosiect yn ystyried y ffordd orau o ddarparu cynllun solar cymunedol 5MW fel rhan o'r prosiect, lle gall y gymuned leol elwa'n uniongyrchol o gael ynni adnewyddadwy wedi'i gynhyrchu'n lleol.

Mae cynigion pellach dan ystyriaeth, er enghraifft cynigion seilwaith gwyrdd a chyfleoedd hamdden newydd. Rydym hefyd yn edrych ar sut gallem ddarparu cyfleoedd addysgol ar Ynys Môn, fel gweithio gydag ysgolion a cholegau lleol.

O'r cychwyn cyntaf, uchelgais ehangach yr Ymgeisydd oedd i'r prosiect alluogi Hyb Ynni ar hen safle Shell a fyddai, yn ei dro, yn cefnogi datblygu economaidd a chreu swyddi. Gallai'r gwaith sydd ei angen i gyflwyno Hyb Logisteg Adeiladu, ac i ddatblygu'r System Storio Ynni Batri (BESS) a solar cymunedol, gynnwys buddsoddi mewn seilwaith a allai yn gyffredinol helpu i ddatgloi potensial y safle i gefnogi'r defnydd arfaethedig o ynni a chyflogaeth; gan helpu i alluogi Hyb Ynni. Mae hyn yn arwyddocaol o ystyried bod hen safle Shell yn segur a'r diffyg cyfleoedd datblygu sydd wedi'u cyflwyno hyd yma.

Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda chymunedau lleol i nodi a diffinio manteision cymunedol. Rydym yn awyddus i glywed sut gallai Prosiect Maen Hir gefnogi mentrau cymunedol lleol, a gweithio ochr yn ochr â'r gymuned i fireinio ein cynlluniau ar gyfer darparu manteision lleol.

7. Sut bydd y gymuned leol yn cyfranogi?

Mae gwybodaeth a mewnbwn lleol yn werthfawr i ni, ac rydym yn ceisio creu sianeli cyfathrebu agored a hygyrch gyda chymunedau lleol a'u cynrychiolwyr.

Ein nod dros aeaf 2023 a dechrau 2024 yw ailgyflwyno ein hunain i'r cyhoedd a sicrhau bod y gymuned yn ymwybodol o'n cynigion diweddaraf. Bydd hyn yn cynnwys darparu rhagor o wybodaeth am ein cynlluniau sydd wedi'u diweddarau ar gyfer Maen Hir a chynnal cyfres o ddigwyddiadau a chyfarfodydd gwybodaeth wyneb yn wyneb i gefnogi ymwybyddiaeth gymunedol. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r gymuned leol gael rhagor o wybodaeth am y prosiect a gofyn cwestiynau i'r tîm. Bydd manylion am y digwyddiadau'n cael eu rhyddhau yn y flwyddyn newydd.

Rydyn ni'n bwriadu cynnal Ymgyngoriad Statudol, a fydd yn cael ei gynnal yn ystod **Gwanwyn 2024**. Bydd hyn yn cynnwys dogfennau a gwybodaeth ychwanegol am y cynigion, yn ogystal â chyfleoedd wyneb yn wyneb a digidol i ni gwrdd â'r gymuned leol a thrafod Prosiect Maen Hir.

Prosiect Maen Hir

Solar a Storio Ynni

Rydym yn awyddus i glywed gan y gymuned leol ar unrhyw adeg i helpu i lunio'r cynigion, yn enwedig er mwyn sicrhau ein bod yn ystyried gwybodaeth leol am yr ardal yn ein cynlluniau. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â ni drwy:

- E-bostio: maenhir@lightsourcebp.com
- Ffôn ein llinellau gwybodaeth rhadffôn: Cymraeg: 08081 756663 / Saesneg: 08081 756375
- Ysgrifennwch at: **FREEPOST MAEN HIR PROJECT** (dim angen stamp)

8. Beth yw ein hamserlen?

Mae ailgyflwyno'r prosiect i'r cyhoedd yn hydref 2023 yn cyd-daro â chyflwyno ein Hadroddiad Cwmpasu Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA) i'r Arolygiaeth Gynllunio (PINS). Mae ein tîm yn cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol trylwyr, a bydd hyn yn seiliedig ar broses barhaus drwy gydol datblygiad y prosiect.

Mae AEA yn broses ailadroddol lle mae effeithiau amgylcheddol posibl yn cael eu hasesu ochr yn ochr â'r broses ddylunio ar gyfer datblygiad, gan ein helpu i ganfod effeithiau posibl y cynigion ar y gymuned leol a'r amgylchedd, ynghyd â ffyrdd posibl o leihau'r rhain cyn belled ag y bo modd. Mae'r AEA yn ei dro yn sail i ddyluniad Prosiect Maen Hir.

Mae'r Cais Cwmpasu AEA yn nodi'r dull arfaethedig o ymdrin ag AEA a byddwn yn ymgynghori â'r sefydliadau a'r cynghorau perthnasol i gyfrannu at y Farn Gwmpasu ynghylch sut mae'r tîm yn cynnal yr asesiadau amgylcheddol. Bydd PINS yn gofyn am adborth gan ymgynghoreion rhagnodedig i hysbysu'r Safbwynt.

Bydd y Farn Gwmpasu a gynhyrchir gan PINS wedyn yn hysbysu sut rydym yn cynnal ein AEA. Bydd hyn yn arwain at gyhoeddi Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol (PEIR) cyn yr Ymgynghoriad Statudol. Ochr yn ochr â'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu terfynol, byddwn yn cyflwyno Datganiad Amgylcheddol (ES) yn nodi'r holl effeithiau posibl a'r mesurau lliniaru y byddwn yn eu rhoi ar waith. Bydd canlyniadau terfynol yr AEA yn cael eu hadrodd yn y Datganiad Amgylcheddol (ES), a gyflwynir i gefnogi'r cais cynllunio DCO Rydym yn disgwyl cyflwyno'r DCO hwn i PINS yn ystod Gaeaf 2024.

Ochr yn ochr â'r broses dechnegol hon, rydym wedi ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r cyhoedd a chynrychiolwyr cymunedol. Rydym yn ail-lansio'r cynigion wedi'u diweddarau ar gyfer Prosiect Maen Hir ar hyn o bryd, gyda rhagor o ymgysylltu i ddod ym mis Ionawr pan fyddwn yn cynnal cyfres o ddiwyddiadau yn y gymuned leol. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r gymuned leol gael rhagor o wybodaeth am y prosiect a gofyn gwestiynau i'r tîm. Bydd manylion am y digwyddiadau'n cael eu rhyddhau yn y flwyddyn newydd.

Prosiect Maen Hir

Solar a Storio Ynni

Rydym yn rhagweld cynnal Ymgynghoriad Statudol yng **Ngwanwyn 2024**. Cyn hynny, byddwn yn rhyddhau rhagor o wybodaeth a manylion am y prosiect. Bydd ymgynghoriad statudol yn galluogi'r gymuned leol, cynghorau a sefydliadau i roi eu hadborth yn ffurfiol ar y cynigion, a fydd yn helpu i lywio'r dyluniad.

Byddwn yn dadansoddi'r holl adborth a ddaw i law a bydd y sylwadau'n cael eu hystyried wrth ddatblygu'r dyluniad. Ar ôl hyn, bydd y DCO, fydd yn cynnwys y gwaith AEA ac adborth gan y gymuned, yn cael ei gyflwyno i PINS yn ystod Gaeaf 2024. Bydd PINS wedyn yn archwilio'r cynlluniau ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net (DESNZ). Byddant yn gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol, a fydd yn penderfynu yn y pen draw a ddylid rhoi caniatâd ar gyfer y prosiect ai peidio.

Yn amodol ar gael caniatâd, disgwylir y bydd y gwaith adeiladu cynharaf yn dechrau yn 2027. Sylwch fod yr holl ddyddiadau hyn yn rhai dangosol ac mae'n bosibl y byddant yn newid.

9. Sut mae cael y wybodaeth ddiweddaraf?

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am Brosiect Maen Hir, gallwch gofrestru yma i gael diweddariadau am y prosiect yn uniongyrchol i'ch blwch derbyn: www.lightsourcebp.com/uk/projects/maen-hir-solar-battery/

Mae hygyrchedd yn bwysig i ni. Cysylltwch â ni drwy unrhyw un o'r llinellau cyfathrebu a nodir isod os oes angen, neu os yw'n well gennych ddulliau cyfathrebu eraill.

- E-bostio: maenhir@lightsourcebp.com
- Ffôn ein llinellau gwybodaeth rhadffôn: Cymraeg: 08081 756663 / Saesneg: **08081 756375**
- Ysgrifennwch at: **FREEPOST MAEN HIR PROJECT** (dim angen stamp)

Commented [MO1]: Link to project website goes here.

Commented [AS2R1]: www.lightsourcebp.com/uk/projects/maen-hir-solar-battery/

Commented [AS3R1]: Link not yet available to wider public